



Adroddiad Ymgynghori ar Gyfleusterau Cymunedol A I06 Y Rhws

Ionawr 2018

1. Cefndir

Fel rhan o'r broses ceisiadau cynllunio, sicrhodd y Cyngor gyfraniadau Adran 106 sylweddol ar gyfer cyfleusterau cymunedol ar gyfer y ddau ddatblygiad Taylor Wimpey newydd yn Y Rhws. Sef:

- £86,876 gan dir i'r de o'r rheilffordd (derbyniwyd, yn dod i ben 30 Gorffennaf 2020)^[1]
- £343,009 gan dir i'r gogledd -orllewin o'r rheilffordd (disgwylir 2019, wrth gwblhau'r 150fed annedd)

Mae'r cytundebau'n amlinellu'n gyfreithiol bod y cyllid i'w wario fel a ganlyn:

"Darparu neu wella cyfleusterau (parc, adeilad neu strwythur) neu wasanaethau o fewn Y Rhws, sy'n bodloni anghenion y gymuned leol ac ar gael i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys naill ai darparu cyfleusterau newydd yn ffin ward Y Rhws neu wella un o'r cyfleusterau presennol canlynol:

- a) Llyfrgell y Rhws
- b) Ysgol Gynradd Y Rhws
- c) Neuadd, Pafiliwn a chyfleusterau Cymunedol Heol Ceri
- d) Clwb Cymdeithasol Y Rhws a'r Cylch
- e) Neuadd Gymunedol Y Rhws;
- f) Canolfan Gymunedol Parc Celtaidd
- g) Clwb Hedfan Y Rhws
- h) Clwb Achubwyr Bywydau Y Rhws
- i) Parc Gwyliau a Hamdden a Phwll Nofio Fontygary"

Hefyd sicrhodd y Cyngor leiniau llai yn y ward ar gyfer mannau agored cyhoeddus, sy'n dod i tua £20 mil ac yn cynnwys:

- £8,164.28 o'r safle yng nghefn Siop Tesco, Mariners Way, Y Rhws (derbyniwyd, yn dod i ben 31/08/2021)
- 2,552.00 o Lain 1, 90 Ffordd Fontygary, Y Rhws (derbyniwyd, daw i ben 4/10/2021)
- £2,552.00 o Lain 2, 90 Ffordd Fontygary, Y Rhws (derbyniwyd, daw i ben 21/07/2022)
- £6,840 o leiniau 3-5, 90, Fontygary Road, Y Rhws (ar ddod)

Diffinnir y cyfraniadau hyn fel:

"yn daladwy i'r Cyngor er mwyn darparu neu wella Mannau Cyhoeddus Agored ger y safle"

Diffinnir Man Cyhoeddus Agored fel:

"Tir a osodir fel gardd gyhoeddus neu a gaiff ei ddefnyddio at bwrpas hamdden cyhoeddus, neu fan agored o werth cyhoeddus gan gynnwys tir neu ddŵr sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer chwaraeon, hamdden a thwristiaeth a lleoedd chwarae plant."

Er nad ymgynghorwyd ar y lleiniau man agored cyhoeddus llai fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cânt eu hystyried hefyd wrth adolygu'r canlyniadau o'r ymgynghoriad.

[1] Llai £187.00 i dalu treuliau'r ymgynghoriad, sy'n gyfartal â £86,689

2. Methodoleg

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad o 18 Medi tan 6 Tachwedd 2017. Roedd yr ymgynghoriad yn seiliedig yn bennaf ar arolwg, a geisiodd sicrhau dyheadau'r gymuned yn y dyfodol o ran cyfleusterau cymunedol yn y ward. Hyrwyddwyd yr arolwg trwy wefan y Cyngor, sianeli cyfryngau cymdeithasol, gollwng taflenni, a phosteri o gwmpas y pentref.

Yn ogystal, gwahoddwyd y preswylwyr i ddod i ddwy sesiwn galw heibio:

- Dydd Gwener 6 Hydref o 6-8.30 pm, Canolfan Gymunedol Celtic Way
- Dydd Iau 2 Tachwedd, 12-3pm, Diwrnod o Hwyl i'r Teulu yng Nghanolfan Gymunedol Celtic Way

Cafodd y ddwy sesiwn galw heibio eu hyrwyddo trwy bosteri, taflenni a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ym mhob un o'r sesiynau galw heibio roedd gweithgareddau i blant ac oedolion gymryd rhan ynddynt, megis pleidleisio gydag arian ffug mewn blychau Persbecs a defnyddio 'post-its' i fapio syniadau yn ffisegol. Hefyd rhoddodd y sesiynau galw heibio gyfle i'r gymuned drafod unrhyw syniadau yn fwy manwl gyda swyddogion y Cyngor ac Aelodau'r Ward Lleol.

3. Ymatebion i'r Arolwg

Daeth cyfanswm o 153 o ymatebion i'r arolwg i law.

3.1 Proffil o ymatebwyr

Mae 147 o'r 153 o ymatebwyr, sef 97% yn breswylwyr lleol, mae 2 ymatebydd yn cynrychioli busnes lleol ac roedd 3 yn gynrychiolwyr aelodau'r gymuned.

Nododd 32% o'r ymatebwyr eu bod yn wrywaidd a 68% eu bod yn fenywaidd.

Pan ofynnwyd iddynt am eu hoedran, mae 2% o'r ymatebwyr o dan 18 oed, mae 7% rhwng 18-24 oed, mae 18% rhwng 15-34, mae 44% rhwng 35 a 54 oed, mae 27% rhwng 55 a 77 ac mae 1% yn 75 neu'n hŷn.


Dywedodd 6% o'r ymatebwyr fod gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cael eu cyfyngu llawer oherwydd anabledd, caiff 9% eu cyfyngu ychydig ac mae 80% heb eu cyfyngu. Dewisodd 5% o'r ymatebwyr beidio â datgelu'r wybodaeth hon.

3.2 Adolygiad o Gyfleusterau Presennol

Roedd yr arolwg yn gofyn i ymatebwyr fyfyrto ar gyfleusterau cymunedol presennol yn y ward.

Gofynnodd y cwestiwn cyntaf yn yr arolwg i'r ymatebwyr pa gyfleusterau cymunedol presennol maent yn eu defnyddio yn Y Rhws. Mae'r siart uchod yn dangos yr ymateb.

Ffigwr 1: Defnydd Cyfleusterau Cymunedol Presennol



Y cyfleusterau a ddefnyddir fwyaf yw Canolfan Gymunedol y Rhws a Llyfrgell Y Rhws. Hefyd gofynnwyd i'r ymatebwyr a oes cyfleusterau maent yn eu defnyddio nad ydynt wedi'u rhestru, mae'r ymatebion yn cynnwys:

- Mannau gwyrdd a chyhoeddus yn Y Rhws x 4
- Eglwys Sant Pedr x 2
- Brownies a Beavers x 2
- Cwt y Sgowtiaid x 3
- Mannau chwarae Trwyn y Rhws x 4

Wedyn gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sgôr i'r cyfleusterau maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd (1 yw'r sgôr isaf a 5 yw'r sgôr uchaf). Mae'r tabl isod yn dangos yr ymateb.

Tabl 1 : Sgoriau'r Cyfleusterau Cymunedol Presennol

Cyfleuster Cymunedol	Canran (%) sy'n rhoi sgôr o 3* neu'n uwch i'r cyfleuster
Llyfrgell y Rhws	85%
Canolfan Gymunedol Y Rhws	80%
Canolfan Gymunedol Celtic Way	79%
Parc Milburn	76%
Clwb Bowlio Y Rhws	72%
Maes Chwaraeon Ceri Road	56%
Man Chwarae Stewart Road	53%

Cafodd cyfleusterau Llyfrgell Y Rhws a Chanolfan Gymunedol Y Rhws y sgorau uchaf, a rhoddodd 80% neu fwy o'r ymatebwyr sgôr o 3* neu'n uwch i'r cyfleusterau. Cafodd Stewart Road a Maes Chwaraeon Ceri Road y sgôr isaf.

3.3 Dyheadau Tymor Byr

Gofynnodd y cwestiwn nesaf i ymatebwyr ystyried y blaenoriaethau tymor byr ar gyfer Y Rhws, ac i roi sgôr i gyfres o brojectau yn nhrefn blaenoriaeth ar gyfer y rhandaliad cyntaf yn Y Rhws, ar raddfa o 1 i 7 (1 yw'r flaenoriaeth uchaf, 7 yw'r flaenoriaeth isaf).

Tabl 2: Blaenoriaethau Tymor Byr

Project	Sgoriau'r Blaenoriaethau Tymor Byr (1* yw'r flaenoriaeth uchaf, 7* yw'r flaenoriaeth isaf)							
	1*	2*	3*	4*	5*	6*	7*	Canran yr ymatebwyr sy'n sgorio 4* neu'n fwy
Diweddarau parc lleol	46.3%	12.5%	12.5%	8.8%	5.9%	5.1%	8.8%	80.1%
Prynu offer ac ymgymryd â man gwelliannau i gyfleuster y llyfrgell	15.4%	16.2%	20%	14.6%	8.5%	13.1%	12.3%	66.2%
Prynu Offer Sinema Cymunedol	11%	8.7%	13.4%	19.7%	9.4%	15.7%	22%	52.8%
Darparu Cynllun Grant Cymunedol	23.5%	20.5%	12.1%	12.9%	7.6%	9.1%	14.4%	69%
Uwchraddio'r Parc Sglefrio yn Ceri Road	20.6%	7.6%	17.6%	15.3%	12.2%	11.5%	15.3%	61.1%
Gwella golwg y Mannau Agored Cyhoeddus	21.4%	19.3%	13.6%	14.3%	11.4%	10%	10%	68.6%
Uwchraddio Cyrtiau Tennis Celtic Way	3.8%	8.4%	12.2%	20.6%	17.6%	16.8%	20.6%	55%


Yn seiliedig ar yr uchod, gellir trefnu'r categorïau â'r sgoriau uchaf (4* neu'n fwy) fel a ganlyn:

- 1) Uwchraddio parc lleol
- 2) Darparu Cynllun Grant Cymunedol
- 3) Gwella golwg y Mannau Agored Cyhoeddus
- 4) Prynu offer ac ymgymryd â mân welliannau i'r llyfrgell
- 5) Uwchraddio'r Parc Sglefrio yn Ceri Road
- 6) Uwchraddio Cyrtiau Tennis Celtic Way
- 7) Prynu Offer Sinema

Ar gyfer yr ymatebwyr a sgoriodd “Uwchraddio parc lleol” neu “Gwella golwg Mannau Agored Cyhoeddus” yn uchel, gofynnwyd wedyn i'r ymatebwr pa barc a ddylai gael y flaenoriaeth gyntaf ar gyfer gwelliannau. Dewisodd 41% o'r ymatebwyr Faes Hamdden Celtic Way, dewisodd 38% o'r ymatebwyr Faes Chwaraeon a Hamdden Ceri Road, dewisodd 15% Man Chwarae Steward Road a dewisodd 6% Milburn Park.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hyn hefyd pa offer byddent yn hoffi gweld mewn man chwarae wedi'i uwchraddio. Gofynnwyd iddynt ddewis pob un o'r opsiynau a oedd yn berthnasol, mae'r siart isod yn dangos eu hymateb.

Ffigur 2: Dewisiadau ar gyfer Offer Parciau



Uned aml-ddefnydd fawr oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd ac roedd 82% o'r ymatebwyr yn ffafrio hyn.

Ar gyfer ymatebwyr a flaenoriaethodd gwneud man welliannau i'r llyfrgell, gofynnwyd iddynt wedyn pa mor aml byddent yn ymweld â'r Llyfrgell a pha welliannau byddent yn eu hawgrymu.

Mae 8% o ymatebwyr yn ymweld hyd at bum gwaith yr wythnos, mae 26% yn ymweld unwaith yr wythnos, mae 14% yn ymweld unwaith pob 2-3 wythnos, mae 15% yn ymweld unwaith y mis, mae 26% yn ymweld 2-3 gwaith y flwyddyn ac mae 12% byth yn ymweld â'r llyfrgell.

Bu amrywiaeth o awgrymiadau i wella'r llyfrgell, gan gynnwys:

- Detholiad gwell o lyfrau a llyfrau llafar;
- Rhagor o ddsbarthiadau a gweithgareddau newydd i ddenu pobl;
- Gwella golwg y llyfrgell y tu fewn;
- Ymestyn y llyfrgell;
- Oriau agor gwell ar ddydd Sadwrn a chynnwys noson; a

- Chyfleusterau te/coffi

Gellir dod o hyd i restr o awgrymiadau yn Atodiad A.

O'r 71 o ymatebwyr a flaenoriaethodd gyllid ar gyfer grŵp cymunedol, mae 36 (51%) yn aelod o grŵp ac mae 35 (49%) nad ydynt yn aelodau.

Pan ofynnwyd iddynt pa grŵp roeddent yn ei gynrychioli, soniodd yr ymatebwyr am:

- Y Sgowtiaid;
- Clwb gwaith cartref;
- Grŵp sinema; a
- Chlybiau chwaraeon (pêl-droed a karate).

Fel rhan o'r cwestiwn hwn, gofynnwyd i ymatebwyr mewn ffordd benagored i restru unrhyw gyfleusterau "eraill" y dylid eu blaenoriaethu. Crynhoir yr awgrymiadau a fyddai'n gymwys yn unol â'r cyllid Adran 106 isod:

- Y sgowtiaid – awgrymodd nifer o ymatebwyr roi arian i'r grŵp hwn er mwyn gwneud gwelliannau ffisegol i gwt y sgowtiaid ac arian i ymestyn y grŵp;
- Rhagor o fannau agored cyhoeddus a gwelliannau hamdden – bu lluo o awgrymiadau yn ymwneud â pharciau o fewn ward Y Rhws, a'r angen i uwchraddio offer;
- Sinema
- Cysgodfeydd i bobl ifanc mewn nifer o leoliadau ledled Y Rhws
- Hyb cymunedol yn Eglwys Sant Pedr
- Pad Sblasio

Ceir rhestr lawn o sylwadau yn Atodiad B.

Roedd nifer o'r awgrymiadau a wnaed yn gysylltiedig â gwelliannau i drafnidiaeth a gwelliannau i ysgolion, a chafodd y materion hyn eu codi ar wahân gyda'r adrannau Prifysgol ac Addysg.

3.4 Dyheadau Hirdymor

Yn olaf, gofynnwyd i ymatebwyr beth fyddai eu blaenoriaethau hirdymor ar gyfer y cyllid. Rhoddwyd cyfres o brojectau i'r ymatebwyr, a gofynnwyd iddynt eu blaenoriaethu mewn trefn (1 oedd y flaenoriaeth uchaf, 5 oedd y flaenoriaeth isaf).

Tabl 3: Blaenoriaethau Hirdymor

Project	Sgorau Blaenoriaethau Hirdymor (1* yw'r flaenoriaeth uchaf, 5* yw'r flaenoriaeth isaf)					
	1*	2*	3*	4*	5*	Canran o ymatebwyr sy'n sgorio blaenoriaeth 3* neu'n fwy
Buddsoddi mewn cynllun gwella parciau tymor hwy, a fyddai â'r nod o uwchraddio nifer o fannau chwarae plant yn Y Rhws.	46.3%	20.1%	20.1%	7.5%	6.0%	86.5%
Ystyried gwelliant mwy strategol i'r Llyfrgell Gymunedol	17.7%	14.6%	30.8%	20.0%	16.9%	63.1%
Prynu Offer Sinema Cymunedol	10.6%	9.8%	26.8%	18.7%	34.1%	47.2%
Sefydlu hyb cymunedol, a allai arwain at ddatblygu a gwella Neuadd Gymuendol Stewart Road, i gynnwys man pwrpasol ar gyfer y llyfrgell gymunedol	27.8%	21.1%	18.8%	12.0%	20.3%	67.7%
Darparu Cynllun Grant Cymunedol	27.8%	23.3%	18.8%	12.0%	18.0%	69.9%

Yn seiliedig ar yr uchod, gellir trefnu'r categorïau â'r sgoriau uchaf (3* neu'n fwy) fel a ganlyn:

- 1) Buddsoddi mewn cynllun gwella parciau tymor hwy, a fyddai â'r nod o uwchraddio nifer o fannau chwarae plant yn Y Rhws.
- 2) Darparu Cynllun Grant Cymunedol
- 3) Sefydlu hyb cymunedol, a allai arwain at ddatblygu a gwella Neuadd Gymuendol Stewart Road, i gynnwys man pwrpasol ar gyfer y llyfrgell gymunedol
- 4) Ystyried gwelliant mwy strategol i'r Llyfrgell Gymunedol
- 5) Prynu Offer Sinema Cymunedol

Hefyd, gofynnodd i'r ymatebwyr mewn ffordd benagored pa ddyheadau hirdymor 'eraill' sydd ganddynt. Fel gyda'r cwestiwn penagored blaenorol, roedd amrywiaeth o awgrymiadau ar gyfer buddsoddiadau hirdymor eraill gan gynnwys:

- Adnewyddu neuadd y sgowtiaid;
- Mwy o gyfleusterau yn y pentref i bobl ifanc;
- Mwy o gyfleusterau i bobl hŷn; â
- Gwelliannau i lwybrau cerdded.

Gellir dod o hyd i restr lawn o ymatebion yn Atodiad C.

3.5 Sylw terfynol

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ychwanegol i'w gwneud. Ychwanegodd 25 o ymatebwyr sylwadau ychwanegol. Rhestrir crynodeb o awgrymiadau cymwys ychwanegol isod:

- Mwy o gyfleusterau i blant ac oedolion ifanc;
- Gwelliannau i barciau, yn enwedig Ceri Road;
- Gwelliannau i Barc Smeaton;
- Cynllun Grant Cymunedol;
- hyb cymunedol;
- Mwy o weithgareddau i bensiywyr;
- Cylch Chwarae Lollipop Lane
- Cyfleusterau i bobl anabl

Cafodd nifer o sylwadau eu codi nad oeddent yn berthnasol i'r ymgynghoriad penodol hwn, ond cawsant eu cyfleu i'r adrannau perthnasol.

4. 4. Ymatebion mewn Digwyddiadau Ymgynghori

Fel y rhestrir o dan Adran 2, cafodd trigolion eu gwahodd hefyd i fod yn bresennol mewn dwy sesiwn galw heibio:

- Dydd Gwener 6 Hydref o 6-8:30pm, Canolfan Gymunedol Celtic Way
- Dydd Iau 2 Tachwedd, 12-3pm, Diwrnod o Hwyl i'r Teulu yng Nghanolfan Gymunedol Celtic Way

4.1 Sesiwn Galw Heibio ar Ddydd Gwener 6 Hydref 2017

Yn y digwyddiad olaf, roedd 31 pobl, sef 22 o oedolion a 9 o blant yn bresennol. O'r rhain, roedd 16 yn wrywaidd a 15 yn fenywaidd.

Roedd dau weithgaredd i gasglu barn y rhai a oedd yn bresennol yn ogystal â chopïau caled o'r arolwg.

Roedd y gweithgaredd cyntaf yn golygu rhoi gwerth £1,000 o arian ffug i'r rhai oedd yn bresennol i'w 'gwario' mewn blychau Persbecs. Roedd hyn yn galluogi'r rhai oedd yn bresennol i 'bleidleisio' dros bob project. Y canlyniadau oedd:

Cynllun	Nifer y papurau £100
Gwelliannau i barciau lleol	132
Hyb Cymunedol	63
Cynllun Grant Cymunedol	30
Sinema gymunedol	27
Gwelliannau i'r llyfrgell	21
Eraill (awgrymwyd caffi cymunedol a hyb)	36

Yr awgrym a sgoriodd uchaf oedd "Gwelliannau i Barciau Lleol", wedi'i ddilyn gan yr awgrym am "Hyb Cymunedol".

Gwahoddodd yr ail weithgaredd i'r rhai oedd yn bresennol ddefnyddio 'post-its' i wneud awgrymiadau ar ddau fap; roedd y map cyntaf i restru dyheadau tymor byr ar gyfer y ward ac roedd yr ail fap i restru dyheadau hirdymor ar gyfer y ward. Y syniadau a gyflwynwyd oedd:

Tymor byr

- Meinciau ar hyd yr arfordir yn Nhrwyn Y Rhws
- Cau'r llyfrgell a'i hymgorffori i mewn i Ganolfan Gymunedol Stewart Road, gan greu hyb
- Maes pêl-droed ar dir i dde'r orsaf drenau ger Heol y Pentir
- Ymestyn y parc sglefrio
- Creu gardd gymunedol ar hyd ymylon glaswellt ar gyfer ffrwythau/llysiau
- Gwelliannau i'r tŷ clwb pêl-droed
- Man picnic yn y goedwig wrth ochr Celtic Way
- Cyfleusterau cyrtiau tennis wedi'u gwella

Tymor Hir

- Llwybr beicio mynydd/ llogi beiciau mynydd (yn debyg i Boris Bikes)
- Gwella llwybrau cerdded ar hyd yr arfordir gydag arwyddion a byrddau gwybodaeth
- Newid y ganolfan gymunedol yn Stewart Road yn gyfleuster ieuenctid, gan gynnwys clwb gwaith cartref
- Cyfleuster chwaraeon dan do
- 3 x maes pêl droed cae 3g
- Parc sglefrio mwy x 4
- Mae angen lle i breswylwyr hŷn yn y pentref gyfarfod; nid yw'r pentref ar gyfer plant yn unig
- Parc dŵr
- Parc saffari
- Ailwampio mannau chwarae
- Cyfuno'r 2 ganolfan gymunedol yn 1 cyfleuster mawr pwrpasol gyda chyfleusterau chwaraeon ac ystafelloedd cyfarfod
- Hyb Cymunedol Eglwys Sant Pedr

4.2 Sesiwn Galw Heibio ar ddydd Iau 2 Tachwedd 2017

Yn yr ail ddigwyddiad, roedd 24 pobl, sef 13 o oedolion a 11 o blant yn bresennol. O'r rhain, roedd 10 yn wrywaidd a 14 yn fenywaidd.

Fel gyda'r digwyddiad cyntaf, gwahoddwyd y sawl oedd yn bresennol i bleidleisio gan ddefnyddio'r blychau arian. Yn seiliedig ar adborth gan y digwyddiad blaenorol, y tro hwn roedd opsiwn i gynnwys "uwchraddio'r parc sglefrio". Y canlyniadau o'r blychau arian oedd:

Cynllun	Nifer y papurau £100
Gwelliannau i barciau lleol	16
Uwchraddio'r parc sglefrio	31
Hyb Cymunedol	8
Gwelliannau i'r llyfrgell	7

Yr awgrym a sgoriodd uchaf oedd “Uwchraddio'r parc sglefrio”, wedi'i ddilyn gan “Gwelliannau i barciau lleol”

Yn yr un modd, ymgwymerwyd â'r ymarfer 'post-its' a mapio, ac awgrymwyd y syniadau canlynol:

Tymor byr:

- Cynllun grant cymunedol, fel y gallai grwpiau megis y Clwb Gwaith Cartref a Lle Chwarae Lollipop Lane gael mynediad at gyllid i blant
- Ceri Road – lle chwarae ar gyfer cymysgedd o oeddrannau
- Meinciau ar hyd y llwybr arfordirol ac o gwmpas Trwyn Y Rhws
- Cysgodfeydd i Bobl Ifanc
- Buddsoddi yn y llyfrgell

Tymor Hir:

- Parc Sglefrio Ceri Road
- Cyfleuster i blant 14-18 oed ei ddefnyddio e.e. Man gemau aml-ddefnydd neu barc sglefrio/sgwteri/beiciau
- Buddsoddi yn y llyfrgell fel ei bod yn mynd yn fodel mwy cynaliadwy a hyfyw – efallai ei hymgorffori i gyfleuster arall fel ei fod yn ei galluogi i ymestyn

5. Ceisiadau ychwanegol

Yn ogystal â'r arolwg a'r sesiwn galw heibio, gallai preswylwyr ysgrifennu i'r Cyngor. Derbyniodd y Cyngor ddau sylw ychwanegol gan Lyfrgell Gymunedol Y Rhws ac Eglwys Sant Pedr. Hefyd, mae'r Cyngor wedi derbyn cais Cronfa Grant Cymunedau Cryf ar gyfer Sinema Gymunedol Y Rhws.

5.1 Eglwys Sant Pedr

Hoffai Y Parchedig Melanie Prince o Blwyf Porthceri ac Eglwys Y Rhws i'r Cyngor ystyried project y Caffi Cymunedol y mae'r Plwyf yn ei ddilyn yn Eglwys Sant Pedr fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae'r Parch. Prince wedi dweud bod y project yn ceisio darparu hyb cymunedol a man cyfarfod galw heibio diogel ar gyfer oedolion sydd â phlant bach, plant yn eu harddegau ac oedolion hŷn, yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer Clybiau Swyddi, cwnsela, caffi demensia ayyb.

Mae'r Parchedig Prince wedi dweud bod yr Eglwys wedi ymgymryd ag ymgynghoriad o fewn y gymuned, a ddangosodd fod angen am le cyfarfod diogel ar gyfer grwpiau oedran gwahanol yn ogystal â lle i gael mynediad at wasanaethau.

Mae'r Parchedig Prince wedi dweud mai dyma'r cynnig: ymestyn yr eglwys er mwyn ehangu'r gegin ac ychwanegu ystafelloedd cyfarfod; uwchraddio cyfleusterau'r gegin hyd at safonau masnachol; a phrynu offer cyfrifiadurol er mwyn galluogi mynediad at wasanaethau ar-lein i'r gymuned. Hefyd bydd rhaid iddynt uwchraddio ein cyfleusterau toiled i gwrdd â safonau cyfredol.

Mae'r Parchedig Prince wedi dweud mai cyfanswm cost y project yw £150,000; mae hi wedi gwneud cais am arian cyfatebol ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig (Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig) Llywodraeth Cymru.

5.2 Llyfrgell Gymunedol Y Rhws

Derbyniodd y Cyngor sylw gan Mr. Jeff James, sef Cadeirydd Llyfrgell Gymunedol Y Rhws, ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr, er mwyn mynegi eu diddordeb mewn defnyddio arian Adran 106 i roi arian cyfatebol i'r estyniad arfaethedig ar yr adeilad cyfredol er mwyn creu hyb cymunedol.

Dywedodd y Cadeirydd, yn dilyn ymgynghoriad helaeth a hwyluswyd gan ac mewn partneriaeth â'r Gymuned Wledig Greadigol a defnyddio eu Pecyn Cymorth Cymunedol, gwelsant fod cefnogaeth lethol y bobl yr ymgysylltwyd â nhw eisiau gwasanaethau cymunedol gwell megis addysg, dosbarthiadau crefft a hyfforddiant TG ayyb.

Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r Llyfrgell Gymunedol gynnig estyniad a fydd yn creu ystafell aml-ddefnydd yn ogystal â'r llyfrgell a fydd yn gallu cefnogi hyfforddiant, darllen, clybiau llyfrau a sesiynau crefft ar gyfer pob oedran. Dywedodd y Llyfrgell Gymunedol eu bod yn dymuno gweithio'n agos gyda Chyngor Bro Morgannwg i gefnogi ymgysylltiad cymunedol a gwella cyfleoedd bywyd y bobl yn ein hardal.

Bydd rhan o'r estyniad newydd, y gellir ei gynnal ar dir o fewn ardal les y Llyfrgell Gymunedol, yn darparu swyddfa fach er mwyn rhoi ei hunig fan gweinyddol i Lyfrgell Gymunedol Y Rhws.

Mae'r Llyfrgell Gymunedol yn bwriadu ymgeisio am y rownd nesaf o arian trwy'r Gymuned Wledig Greadigol ac wedi dweud y bydd angen cefnogaeth arian adran 106 er mwyn gwenud y bid yn hyfyw.

5.3 Sinema Gymunedol Y Rhws

Derbyniodd y Cyngor gais ar gyfer Cronfa Grant Cymunedau Cryf gan Sinema Gymunedol Y Rhws, er mwyn prynu offer sinema a bleindiau llwyrddu. Cyflwynwyd y cais i'r panel cyntaf ar ddydd Mercher 25 Hydref 2017, yn seiliedig ar gost o £7,498.18. Ers y cyfarfod hwn, mae Sinema Gymunedol Y Rhws wedi dweud bod cost yr offer wedi codi, ac erbyn hyn, mae wedi cyrraedd **£11,975**.

Mae panel y Gronfa Cymunedau Cryf yn gefnogol o'r cynnig am Sinema Gymunedol, ac o ystyried yr ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo yn Y Rhws, argymhellodd fod hwn yn gynllun a ystyrir ar gyfer yr arian Adran 106 sydd ar gael o fewn y ward yn ein cyfarfod yng nghanol Tachwedd yn dilyn yr ymgynghoriad, yn hytrach na'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd bydd Sinema Gymunedol Y Rhws yn archebu ac wedyn yn benthyca offer sinema gymunedol Cyngor Bro Morgannwg. Mae Sinema Gymunedol Y Rhws yn dangos ffilm bob mis yn y neuadd gymunedol yn Stewart Road, Y Rhws.

Ar hyn o bryd, mae Sinema Gymunedol Y Rhws yn dangos ffilmiau ar y penwythnos oherwydd logisteg casglu a gosod i fyny. Mae Sinema Gymunedol Y Rhws wedi dweud, pe bai'r offer ar y safle yn barod, byddai'r grŵp yn gallu cynnig ffilmiau yn ystod yr wythnos hefyd a fyddai'n ehangu eu cynulleidfa targed.

Mae Sinema Gymunedol Y Rhws wedi dweud, pe gallent brynu eu hoffer eu hunain, gallent osod y sgrin yn y neuadd gymunedol fel y gellid ei gostwng yn electronig cyn dangos pob ffilm.

Mae Sinema Gymunedol Y Rhws yn awyddus i sefydlu Gŵyl Ffilmiau flynyddol yn y Rhws, gan gynnwys ffilmiau a ffilmiau dogfen a wnaed yn lleol er mwyn ymgysylltu â phob oedran.

6. Canlyniadau ac Argymhellion

I gloi, yn seiliedig ar yr adborth o'r ymgynghoriad, mae'n amlwg bod nifer fawr o broiectau i ymgynghoriad atynt o fewn y gymuned ar gyfer y Cyfraniadau i Gyfleusterau Cymunedol.

Mae'n annhebygol y bydd yr arian yn ddigon i dalu am yr holl broiectau a awgrymwyd, ond cafodd nifer o broiectau allweddol eu nodi fel blaenoriaethau isod ar gyfer y tymor byr a hir yn seiliedig ar yr adborth o'r ymgynghoriad.

Argymhellir bod nifer awgrymiadau sy'n perthyn i welliannau i'r hawliau tramwy cyhoeddus, er enghraifft, meinciau ar hyd y llwybr arfordirol; gwelliannau i'r llwybr arfordirol ac arwyddion gwell, yn cael eu hargymell i'r Adran Briffyrdd a'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus, er mwyn ystyried arian Trafnidiaeth Gynaliadwy Adran 106 a dderbyniwyd o'r datblygiadau.

Tymor byr:

Mae gan y Cyngor gyfanswm o £99,957.28 ar gael ar hyn o bryd yn Y Rhws ar gyfer Mannau Agored Cyhoeddus a Chyfleusterau Cymunedol, ac mae £8,226 yn daladwy, sy'n dod i gyfanswm o **£108,183**, fel y rhestrir isod:

- £86,689 – Cyfleusterau Cymunedol – o'r tir i'r de o'r rheilffordd (derbyniwyd, yn dod i ben 30/07/2020)
- £8,164.28 – Man Agored Cyhoeddus – o'r safle yng nghefn Siop Tesco, Mariners Way, Y Rhws (derbyniwyd – yn dod i ben 31/08/2021)
- £2,552.00 – Man Agored Cyhoeddus – o Lain 1, 90, Fontygary Road, Y Rhws (derbyniwyd, yn dod i ben 4/10/2021)
- £2,552.00 – Man Agored Cyhoeddus – o Lain 2, 90, Fontygary Road, Y Rhws (derbyniwyd, yn dod i ben 21/07/2022)
- £8,226 – Man Agored Cyhoeddus – o leiniau 3-5, 90, Fontygary Road, Y Rhws (ar ddod)

Yn seiliedig ar yr ymatebion ymgynghori, yn y tymor byr, awgrymir y caiff y cyfraniadau uchod eu gwario ar y cynlluniau canlynol:

- Uwchraddio'r cyfleusterau chwarae yn naill ai Ceri Road neu Celtic Way;
- Sinema Gymunedol Y Rhws;
- Cynllun Grant Cymunedol, sy'n galluogi grwpiau gwahanol megis y Llyfrgell, y Sgowntiaid, y Clwb Gwaith Cartref, yr Eglwys a'r cylch meithrin ayyb, i gael mynediad at gyllid ar gyfer proiectau bach; a

- Uwchraddio'r parc sglefrion yn Ceri Road, neu'r cyrtiau tennis yn Celtic Way.

Tymor Hir

Bydd y Cyngor yn derbyn £343,009 o dir i'r gogledd-orllewin o'r rheilffordd (disgwyllir 2019, pan gaiff y 150fed annedd ei chwblhau).

Yn y tymor hir, yn seiliedig ar yr ymgynghoriad hwn, y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y pentref yw:

- Hyb cymunedol a lleoliad er mwyn i bob oedran gyfarfod ac ystyriaeth hirdymor ar gyfer y llyfrgell; ystyriwyd mai hwn oedd y project pwysicaf.
- Buddsoddiad mewn nifer o barciau yn Y Rhws;
- Cyfleuster chwarae strategol newydd i blant ac oedolion ifanc ei ddefnyddio
- Cynllun Grant Cymunedol

Cydnabyddir na fydd yr holl syniadau hyn yn ddichonadwy gyda'r arian sydd ar gael.

Ar ôl cael sgysiau cychwynnol gyda'r Pensaer Tirlunio, cafodd y costau canlynol eu hawgrymu ar y dechrau fel y gall aelodau ystyried y gyllideb:

- Gall man chwarae newydd gostio rhwng £50 – 70 mil
- Mae neuadd chwaraeon 382 o fetrau sgwâr sy'n mesur 18m x 10m yn debygol o gostio tua £720mil

Mae angen ystyried cynnal a chadw unrhyw gynnydd terfynol wrth bennu cynllun(iau) ar gyfer y cyfraniad hwn. Pan fydd Aelodau wedi mireinio beth yw eu syniadau o ddewis, bydd angen cael trafodaethau gyda'r Rheolwr Gweithredol dros Hamdden, sef David Knevet.

Mae'n bosibl y bydd arian cyfatebol yn angenrheidiol ac felly argymhellir y gwneir penderfyniad yn gynnar, er mwyn dechrau dilyn unrhyw gyfleoedd ar gyfer arian cyfatebol.

Nodir, er bod canran uchel o drigolion wedi mynegi diddordeb mewn hyb cymunedol aml-dddefnydd, bydd angen cydweithrediad partïon a chyfansoddiadau allanol. Argymhellir, os mai dyma syniad mae'r Aelodau'n dymuno ei ddilyn, bydd angen ymgymryd â chyfarfod gyda'r rhanddeiliaid allweddol.

7. Penderfyniadau terfynol ar gyfer Gwariant

Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chyfarfod ac ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Adfywio a Chynllunio ac Aelodau Ward Lleol ar gyfer Y Rhws yn unol â'r Protocol Adran 106 ar gyfer gweithredu, yn y tymor byr, pennwyd y dylid gwario'r cyfraniadau uchod ar y cynlluniau canlynol:

1. Uwchraddio'r cyfleusterau chwarae yn Ceri Road (**£70,000**);
2. Sinema Gymunedol Y Rhws (**£10,974**) – trwy weithdrefnau'r Gronfa Cymunedau Cryf;
3. Caiff Cynllun Grant Cymunedol (**£10,000**), sy'n galluogi grwpiau gwahanol megis y Llyfrgell, y Sgowtiaid, y Clwb Gwaith Cartref, yr Eglwys a'r cylch meithrin ayyb, i

gael mynediad at gyllid ar gyfer projectau bach; ei weithredu trwy weithdrefn y Gronfa Cymunedau Cryf;

4. Gwelliannau i gyrtiau tennis yn Celtic Way gan gynnwys gwaith ail-wynebu, pyst a rhwydi newydd, gosod rhwydi pêl-fasged a gwelliannau i ffensys a gatiau. (cyfanswm sy'n weddill **c.£17k**) (pan fydd y rhandaliad terfynol wedi'i dderbyn o leiniau 3-5, 90 Fontygary Road, Y Rhws)

Yn y tymor hir, penderfynwyd bod y cyllid hwn yn rhoi cyfle i ystyried cysyniad 'hyb cymunedol aml-ddefnydd', a sut gallai hyn fod o fudd i ddyfodol Llyfrgell Gymunedol Y Rhws. Bydd angen ymgymryd â rhagor o ymgynghori gyda 'r adrannau Cyngor Perthnasol a Llyfrgell Gymunedol Y Rhws er mwyn ystyried hyd a lled y project hwn. Mae'n bosibl y bydd cyfle i wneud cais am arian cyfatebol o ffynonellau eraill, megis Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru, a fyddai wedyn o bosibl yn galluogi arian Adran 106 i gael ei ryddhau ar gyfer projectau eraill. Bydd angen ymgymryd â rhagor o drafodaethau ac ymgynghoriadau ar hyn. Caiff adendwm i'r adroddiad hwn ei uwchlwytho pan fydd y Cyngor wedi derbyn y rhandaliad tymor hir, a phan fydd dyraniad y cyllid wedi'i bennu.

Atodiad A: Gwelliannau awgrymedig i'r Llyfrgelloedd

- *Mwy o weithgareddau ar gyfer plant ysgol gynradd hŷn. Clwb cyfrifiaduron?*
- *Gellid gwario'r arian ar stoc gwell o lyfrau.*
- *Cyflugi llyfrgellydd*
- *Cyfleusterau gwell a mwy o ystod o gyfryngau*
- *Gweithgareddau i blant iau e.e. Amser stori*
- *Oriau agor hwy i sicrhau ei fod ar gael i bobl sy'n gweithio*
- *Estyniad i'r adeilad er mwyn darparu cyfleusterau addysg i oedolion.*
- *Gwella'r apêl o'r cwrbyn. Cynnig dewis ehangach o ddeunydd darllen ac arddangos/darparu mwy o wybodaeth leol.*
- *Sicrwydd daliadaeth – rhent am ddim/wedi'i ostwng er mwyn eu galluogi i sefydlu ei gilydd yn briodol fel cyfadran gymunedol.*
- *Cadeiriau a byrddau sy'n plygu fel y gellid llogi'r lle*
- *Mwy o stociau llyfr ar gael ar y safle.*
- *Ar agor yn hwy ar ddydd Sadwrn*
- *Mwy o Amseroedd Agor gwell*
- *Detholiad gwell o lyfrau. Gweithgareddau i ddenu pobl iau a rhieni. Gwneud y tu allan a'r tu fewn yn fwy deniadol – mae golwg yn beth sylweddol.*
- *Bod ar agor yn hwy ar ddydd Sadwrn*
- *Efallai dylai oriau agor gynnwys un noswaith.*
- *Estyniad i'w gwneud yn fwy o faint*
- *Mwy o ddigwyddiadau cymdeithasol / gweithgareddau i blant er mwyn denu pobl i ymweld â'r llyfrgell*
- *Cyngor ar Bopeth*
- *Ni fyddwn yn newid unrhyw beth ar hyn o bryd, ond ni fyddwn yn dymuno ei cholli.*
- *Mwy o ddsbarthiadau a gweithgareddau - y dosbarthiadau i gynnwys pethau fel dysgu ieithoedd, cyrsiau cyfrifiadurol ayyb.*
- *Mwy o glybiau/sesiynau i blant*
- *Estyniad ar gyfer ystafell gyfrifiadurol*
- *Amseroedd Agor gwell*
- *Rhagor o lyfrau, cyfrifiaduron. Gweithgareddau i blant yn eu harddegau. Heriau darllen. Cyngor Gyrfaoedd. Amrywiaeth ehangach o adnoddau i bobl sydd â dyslecsia ac Anableddau Dysgu*
- *adeilad mwy o faint gyda mwy o gyfleusterau ar gyfer y gymuned yn gyffredinol. Mwy o lyfrau hefyd. Caffi efallai.*
- *Gwella'r addurno – ei gwneud yn fwy llachar gyda seddau modern a chyfforddus.*
- *Ni ddylid cael ei gynnal gan y gymuned oherwydd nad oes digon o arian ar gael i brynu rhagor o lyfrau ac ymestyn cyfleusterau.*
- *Byddaf yn mynd â'm merch i Rigwm ac Arwyddo ac Amser Stori yn Llyfrgell Y Barri – pe bai hyn yn digwydd yn Y Rhws, byddwn yn defnyddio'r llyfrgell yn amlach.*
- *Mwy o stociau llyfrau sy'n ddiweddar. Gwelliant trwy greu mwy o le, e.e estyniad i gefn ac ochr yr adeilad. Byddai hyn yn galluogi mwy o weithgareddau yn y llyfrgell. Talu costau sylfaenol ar gyfer trydan, atgyweiriadau, trethi dŵr ayyb gan fod rhedeg y llyfrgell wedi'i ddarparu am ddim gan wirfoddolwyr sy'n gweithio'n barhaus i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau mewn ffordd ddibynadwy, wedi'i gyrru gan safon.*

- *Mwy o hyfforddiant a chefnogaeth i'r gwirfoddolwyr. Gwella oriau agor.*
- *Mwy o weithgareddau a chyfleusterau te/coffi*
- *Mwy o lyfrau llafar*
- *Gwersi mewn llawer o bethau gwahanol, cyfleoedd i gwrdd.*

Atodiad B: Awgrymiadau ar gyfer dyheadau tymor byr "eraill"

- *Fel y soniwyd, caiff y mannau gwyrdd 'eraill' eu defnyddio'n rheolaidd gan gerddwyr, pobl sy'n mynd â'u cŵn am dro, beicwyr, rhedwyr ayyb. Mae'r mannau hyn yn parhau i leihau (oherwydd gor-ddatblygu tai yn llwyr) ac anghofir amdanynt.*
- *Darparu cyfleusterau parcio ceir yn y pentref*
- *Mae'r parc sglefrio yn Ceri Road wedi dyddio ers talwm ac oherwydd ei gynllun a'i ddefnydd o ddeunydd sy'n hen ffasiwn, mae hefyd yn rhoi golwg ddiflas i'r tiroedd. Byddai parc a gynllunnir yn dda sy'n fwy diogel ac ar ffurf plaza yn ddelfrydol ar gyfer yr ardal hon yn Y Rhws oherwydd bod lle yn gyfyng. Ystyriwch Plaza Argae Caerdydd fel enghraifft; mae hyn yn gysyniad perffaith i'w osod yn Y Rhws. Mae parc sglefrio nid yn unig yn barc sglefrio, gellid ei ystyried yn ddewis arall i ofal plant ar gyfer plant ynghanol eu harddegau na allant gael eu derbyn i glybiau lleol ar ôl yr ysgol ayyb.*
- *Offer aml-chwaraeon Ceri Road*
- *Man chwarae Ystâd Fferm Y Cwrt y tu ôl i Kenson Close. Mae'r offer yn hen ac wedi'i gadw'n wael – mae angen ei uwchraddio.*
- *Cyfleusterau chwarae meddal a chaffi i blant a rhieni.*
- *Creu parc sy'n cwmpasu pob oedran i'w rannu, efallai gan ddefnyddio lle presennol a sicrhau bod ardaloedd dan gysgod (i alluogi defnydd ym mhob tymor), gosod offer parc i blant - Kompan ayyb., offer parc ffitrwydd ac efallai rhan ar gyfer gweithgareddau i blant yn eu harddegau - parc sglefrio, pêl-fasged ayyb. Ystyriwch gyfuno arian Adran 06 at ei gilydd i greu rhywbeth gwych!*
- *Y Palmant ar y ffordd rhwng Croes Fonmon a Dwyrain Aberddawan*
- *Gwelliannau i ysgol gynradd leol oherwydd cynnydd a ddisgwyllir yn nifer y disgyblion o ddatblygiadau newydd*
- *Nid yw cwt y sgowtiaid wedi newid ers 40 o flynyddoedd ac mae'n anodd iddo dderbyn a darparu ar gyfer y nifer o bobl ifanc sy'n ei ddefnyddio er mwyn ennill sgiliau bywyd a phrofiad gwerthfawr (a chael hwyl)*
- *Rhoi grant i'r grŵp sgowtiaid lleol er mwyn rhoi cyfle gwell i rai pobl.*
- *Rwy'n credu y dylid defnyddio'r cyllid i wella'r cyt sgowtio, byddai o fudd i lawer o blant Y Rhws. Gallai hyd yn oed gael ei uwchraddio i dderbyn mwy o blant a rhoi cyfle gwych iddynt ddysgu, cael hwyl a gwneud ffrindiau newydd.*
- *Mae parc Smeaton Road yn 30 mlwydd oed, ni chafodd ei uwchraddio heblaw am gael ei beintio, nid oes bin yno felly mae pobl ifanc yn torri poteli oddi tano fel na all fy mhiant chwarae yno. Gofynnwyd am fin a'r ateb oedd na all y cyngor ei fforddio!*
- *Parc Wheaton Close (gwaelod Ceri Road) mae'r parc yn rhydlyd ac yn beryglus i blant – wedi alaru ar Drwyn Y Rhws yn cael popeth*
- *Gosod teledu cylch cyfyng y tu allan i'r ysgol i amddiffyn plant o barcio/gyrru/cyfeiliornwyr peryglus.*
- *Cyfleusterau chwaraeon newydd – meysydd pêl-droed*

- *Bu'r caeadle y tu allan i Kenson Close yr un peth ers 25 o flynyddoedd heb braidd dim gwelliannau. Mae llawr o deuluoedd ifanc sy'n byw yn y strydoedd o gwmpas yr ardal hon a fyddai'n dwlu ar gael y cyfle i fwynhau'r lle hwn eto*
- *Gwella'r offer parc sydd wedi dyddio yn Celtic Way er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bob plentyn*
- *Mae angen i'r cyrtiau tennis gael eu huwchraddio achos nid ydynt yn agos i safon y rhai ym Mhenarth, er enghraifft.*
- *Dylid ychwanegu pegiau pysgota i'r llynnoedd ar Drwyn Y Rhws. A chaniatáu pysgota eto*
- *Mae gan Ffordd Parc Ffwl-y-mwn ardal werdd hyfryd ond byddai'n elwa'n fawr o offer chwarae plant ar gyfer plant 8 oed ac yn hŷn. Mae gwelliant newydd i Barc Ffordd Stewart ond mae'n fach iawn ac nid oes offer i blant hŷn. Mae'r holl barciau yn Y Rhws yn cynnwys offer i blant iau ac nid oes unrhyw beth i blant 8 oed ac yn hŷn. Rwy'n gwybod bod lechyd Diogelwch yn bwysig ond mae angen i ni alluogi ein plant i chwarae gydag offer sy'n addas i'w grŵp oedran ac mae angen rhagor ar gyfer plant 8 oed ac yn hŷn.*
- *Uwchraddio cwt y sgowtiaid*
- *Uwchraddio'r parc yn Matthew Road yn helaeth. Pobl Ffordd Ffwl-Y-Mwn a'r holl ystadau yw'r bobl yn Y Rhws a anghofwyd. Er bod ardal y 'pentref' yn cael yr holl sylw, cawn ein gadael yn segur. Mae'n annheg iawn.*
- *Byddai Pad Sblasio yn wych i'n plant ni.*
- *Mwy o wybodaeth er mwyn uwchraddio parc lleol – mae Man Chwarae Smeaton Close yn ofnadwy ac yn llawn rhwd. Mae angen edrych ar hwn ar frys.*
- *Rhoi cyfleuster pob tywydd Astroturf yn y man agored ar Celtic Way ac uwchraddio man chwarae'r plant*
- *Man chwarae ar ystâd Ffordd Parc Ffwl-Y-Mwn*
- *Llwybr beicio trwy'r pentref*
- *Pad Sblasio/parc dŵr*
- *Ardal aml-chwaraeon*
- *Sinema yn Y Barri*
- *Yn debyg i lawer o'm ffrindiau rwyf eisiau sinema fel llawer o'm ffrindiau*
- *Nid yw'r opsiynau uchod wir yn darparu ar gyfer yr ystod oedran 20-30. Mae angen clybiau ac ardaloedd cymdeithasol. Cynyddu'r cysylltiad rhwydwaith a'r seilwaith digidol. Lleoliadau awyr agored nad ydynt yn barciau i blant yn unig. Gallai'r parc o flaen y llynnoedd gael eu gwella'n sylweddol ar gyfer bioamrywiaeth a gellid rhoi llwybrau cerdded er mwyn ei gwmpasu i gyd.*
- *Mwy o gyfleusterau chwaraeon i bawb yn y Pentref. Mae Parc Fontygary yn codi llawer o arian – nid pawb sy'n gallu ei fforddio.*
- *Uwchraddio'r strydlun o gornel y Spar i fan chwarae Ffordd Stewart gan ychwanegu coed (mewn fframiau gwrth-fandaleiddio) a seddau metel. Sylwer, mae'r man palmantog a tharmac y tu allan i'r siop Spar yn ofnadwy; mae'n hyll ac yn beryglus i gerddwyr.*
- *Neuadd Sgowtiaid 1af Penmark. Mae angen uwchraddio ac ymestyn yr adeilad i gynyddu'r capasiti, gan gyflwyno Sgowtio i fwy o bobl ifanc yn yr ardal; mae rhestr aros.*
- *Lle arall i bobl ifanc ymgynnull, yfed alcohol a chymryd cyffuriau. Byddi'n well gennyf weld buddsoddiad mewn plismon neu blismones ar gyfer y pentref.*
- *Hyb cymunedol yn Eglwys Sant Pedr*

- *Uwchraddio'r adeilad a'r cyfleusterau a ddefnyddir gan y grŵp sgowtiaid 1af Porthkerry a Phenmark. Mae'r grŵp hwn yn rhan hanfodol o gymuned Y Rhws sy'n cefnogi plant lleol i ddysgu llawer o sgiliau newydd.*
- *Caiff Cwt Sgowtiaid PenKerry ei ddefnyddio gan lawer o sefydliadau – i blant o bob oedran. Rydym oll yn gweld bod y bobl ifanc hyn yn arbennig o barod eu cymwynas adeg y Nadolig pan fyddant yn rhoi eu hamser yn rhwydd i ddioli a dosbarthu ein cardiau Nadolig. Caiff yr orymdaith a'r gwasanaeth coffa ym mis Tachwedd bob amser eu cefnogi'n dda gan y bobl ifanc hyn. Mae'n ymddangos mai dyma'r un lle y caiff ei ddefnyddio drwy gydol y flwyddyn - er budd pobl ifanc Y Rhws a Phenmark.*
- *Darparu cysgodfeydd i bobl ifanc mewn mannau dethol o gwmpas y Rhws a Thrwyn y Rhws. Mae'r math hwn o ddarpariaeth cael ei arfarnu'n achlysurol drwy adnoddau'r heddlu ac astudiaethau academiaidd ac yn hynny o beth mae'n cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc a'u cymunedau.*
- *Hoffwn weld rhywfaint o arian yn cael ei wario ar barc Dwyrain Aberddawan gan fod Dwyrain Aberddawan wedi'i effeithio gan ddatblygiadau yn Y Rhws oherwydd bod maint y traffig lawer yn fwy ac mae llawer wedi mynd dros y terfyn cyflymder ac mae hyd yn oed cadw at y terfyn cyflymder o 30 yn beryglus yn Aberddawan gan nad oes gan Rhodfa'r Orsaf balmant. Rwy'n sylweddoli bod y parc ond yn ddigon mawr i niferoedd bach o blant ond byddai rhywbeth i blant hŷn yn dda. Gan fod defnydd yn isel nid wyf yn gwybod pan na all offer rhatach gael ei osod gan fod offer y Cyngor yn hynod o ddrud. Mewn parc yn Nhonysguboriau, maent wedi rhoi teiars wedi'u suddo i mewn i'r llawr ac mae plant yn cael llawer o hwyl o gydbwysu ar y rhain - nid oes angen i offer fod yn ddrud, yn enwedig mewn cymunedau bach gwledig. Hefyd hoffwn i weld rhywbeth i bobl hŷn - er enghraifft ym Mhont-y-clun mae ganddynt Gaffi 50 (<http://www.pontyclun.net/cafe50>) a byddai rhywbeth fel hyn yn dda iawn. Offer campfa awyr agored i oedolion, cwrw petanque. Hoffwn hefyd weld terfyn cyflymder o 20 mya drwy'r Rhws, Ffwl-Y-Mwn a Dwyrain Aberddawan. Ydynt mae pobl yn mynd yn gyflymach na hyn gan nad oes heddlu yno ond bydd yn lleihau'r cyflymder traffig cyffredinol a bydd y rheiny sy'n mynd yn gyflymach yn gwneud hynny gan lai o gyflymder. Bydd hyn yn gwella ansawdd bywyd i bawb oherwydd bydd llai o lygredd, llai o sŵn a bydd yn annog mwy o bobl i feicio a hefyd yn fwy diogel i blant ac yn cynyddu lefelau gweithgarwch fel eu bod yn llai tebygol o fynd yn ordew. Hoffwn hefyd weld y ffordd o gwmpas y maes awyr o'r gylchfan ger y Travelodge i'r gylchfan sy'n ymuno â'r B4265 ger lle cynnal a chadw BA yn cael ei huwchraddio a'i hyrwyddo a bydd hyn yn lleihau maint y traffig o ben dwyreiniol Y Rhws (Trwyn Y Rhws a Ffordd Porthceri) sy'n mynd i'r gorllewin wrth fynd trwy'r pentref ac yn defnyddio ffordd osgoi Y Rhws mewn gwirionedd - mae'n llwybr cynt oni bai wrth gwrs os byddwch yn mynd yn gyflymach na'r terfyn cyflymder. Rwyf hefyd yn credu y dylid rhoi mwy o sylw i'r lôn sy'n rhedeg o Nurston allan tuag at y B4625 fel bod y ffordd heibio pwll Ffwl-Y-Mwn i ble mae'r lôn hon yn cwrdd â hi yn ffordd unffordd ac mae'r lôn hon yn unffordd i'r cyfeiriad arall. Eto bydd hyn yn lleihau traffig trwy'r pentref gan nad yw llawer o bobl yn defnyddio'r llwybr hon – mae'n gul ac maent yn gyrru trwy'r pentref yn lle hynny neu trwy Aberddawan. Bydd gwneud mwy o lwybrau allan o'r pentref yn lleihau'r baich ar y llwybrau presennol ac yn lledaenu'r baich allan ychydig, gan wneud i'r pentref a'r ysgol deimlo'n fwy diogel a llai fel ffordd gyrru trwodd.*

- *Plant yw ein dyfodol, tai newydd sy'n dod â theuluoedd i mewn i'r ardal. Gadewch i ni ddiweddarau cyfleusterau a darparu lleoedd i bobl ifanc a theuluoedd*

Atodiad C: Dyheadau Hirdymor “Eraill”

- *Amddiffyn a chynnal a chadw'r mannau/ardaloedd cerdded yn Y Rhws.*
- *Gallai gosodiadau eilaidd tuag at y parc sglefrio wthio tuag at gysyniad mwy addysgol o ran chwaraeon eithafol, felly enghraifft arall fyddai parc sglefrio Henffordd lle maent yn cynnig addysgu ac ymarferwyr cymorth cyntaf hyfforddedig i fod ar y safle yn ystod dydd Sadwrn a dydd Sul (y cyfnodau prysuraf yn y parc sglefrio) nid yn unig i addysgu dulliau a thechnegau chwaraeon eithafol ond hefyd i arwain y cenedlaethau iau i syniadau megis arferion parciau sglefrio a sut i ymddwyn mewn lle cyhoeddus, hefyd byddai darparu siop gyfleus ar y safle i'r bobl leol fwynhau diod ysgafn neu brynu cinio yn wych, gan fod y siop gyfleus agosaf tua 15 munud i ffwrdd. Byddai hyn yn hepgor bod rhaid i blant iau adael y parc sglefrio sydd yn amlwg yn fwy diogel iddynt.*
- *Cyfleusterau Chwarae meddal*
- *Efallai byddai estyniad i ardal y parc sy'n cofleidio pob oedran a phob cymuned yn gaffi cymunedol sydd angen ardal fel caban pren*
- *Gan fod poblogaeth Y Rhws bellach yn fwy na phoblogaeth Y Bontfaen, mae'n rhaid gofyn y cwestiwn o ran ble mae'r ganolfan hamdden sydd â champfa, neuadd chwaraeon a phwll nofio. Nid oes unrhywbeth i gymuned iau Y Rhws. Dyna pam mae ymddygiad gwrthgymdeithasol.*
- *Gwelliannau i'r ysgol er mwyn cynyddu capasiti*
- *Ymestyn y cwt sgowtiaid*
- *Bod o fudd i'r plant yn fwy gyda buddsoddiad hirdymor yn y gymuned Sgowtio.*
- *gosod ffens ar y palmant yn wynebu'r ysgol, er mwyn atal parcio ar y palmant ac amddiffyn plant.*
- *Dylai cyrtiau tennis gael eu huwchraddio gan eu bod yn ofnadwy ac rydym yn DWLU ar chwarae tennis*
- *Pysgota ar Drwyn Y Rhws*
- *Mae neuadd y sgowtiaid yn cael ei defnyddio llawer gan blant a phlant yn eu harddegau, sy'n darparu man diogel angenrheidiol i chwarae, cymdeithasu a dysgu. Mae'n adfeiliedig fodd bynnag ac mae angen ei hehangu a'i gwella*
- *Y Sgowtiaid*
- *Pad Sblasio?*
- *Diweddarau'r parc ger Adenfield Way, Y Rhws*
- *Rhywbeth sy'n addas i'r rhan fwyaf o breswylwyr, yn ifanc ac yn hen. Golff gwirion?*
- *Llwybrau beicio diogel ar gyfer plant sy'n mynd i'r ysgol ac i leoedd eraill o gwmpas Y Rhws*
- *Gan ein bod yn ochr arall y pentref. Byddai'n drueni meddwl am barc yr holl ffordd draw ar ochr arall pan na fyddem yn elwa ar ein hochr ni hefyd*
- *Pad Sblasio/parc dŵr*
- *Sinema yn Y Barri*

- *Mae angen llawer o waith ar y man gwyrdd ger y clogwyni. Mae gosodiadau celf yn cael eu difrodi, mae anifeiliaid yn byw gyda sbwriel, nid oes unrhyw finiau, cynnal a chadw neu ardaloedd gyda seddau. Digon o gyfleoedd cymdeithasol megis digwyddiad i edrych ar yr wybren gyda'r nos yn ystod eclips y lleuad, er enghraifft.*
- *Mwy o gyfleusterau i blant yn eu harddegau a mwy o gyfleusterau chwaraeon.*
- *Plannu rhagor o goed.*
- *Neuadd Sgowtiaid 1af Penmark. Mae angen uwchraddio ac ymestyn yr adeilad i gynyddu'r capasiti, gan gyflwyno Sgowtio i fwy o bobl ifanc yn yr ardal; mae rhestr aros.*
- *Cae pob tywydd gyda goleuadau ym maes pêl-droed/criced ac uwchraddio'r ystafelloedd newid er mwyn darparu ar gyfer y ddau ryw. Mae'r ardal yn agored ar ddwy ochr ac eisoes yn cael ei difetha gan y maes awyr felly byddai'r ymwithiad gweledol a'r sŵn gan weithgareddau yn ddibwys.*
- *Mae ar Y Rhws angen mwy o gyfleusterau, mwy o siopau a chaffis ayyb.*
- *Grŵp Sgowtiaid 1af Penmarc a Phorthceri. Arian i gefnogi cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac ehangu offer a chyfleusterau presennol.*
- *Dylai fod mwy yn y pentref ar gyfer pobl hŷn megis Cafe 50 ym Mhont-y-clun. Bydd mwy ohonom yn byw yn hwy ac rwy'n credu ei fod yn hanfodol bod lleoedd lle y gall hen bobl na fyddant o bosibl yn gweld unrhyw un eu cyrraedd fel y gallant gymdeithasu. Byddwn hefyd yn hoffi gweld Y Rhws yn fwy cyfeillgar i feicwyr – nid yw hyn mor rhywydd oherwydd nifer y ceir sydd wedi'u parcio ar y ffordd. O ystyried nifer y bobl sy'n gyrru i Tesco (o ystyried y ceir sydd wedi parcio ar y ffordd oherwydd nad yw pobl yn defnyddio'r maes parc oherwydd eu bod yn rhy beryglus) efallai gallai adleoli Tesco yn rhywle arall oherwydd fy mod yn credu bod hyn wedi gwneud y pentref yn llawer mwy peryglus i feicwyr neu roi linellau melyn ar hyd Ffordd Fontygary ger Tesco, ac wedyn caiff pobl eu gorfodi i ddefnyddio maes parcio Tesco. Rwy'n credu y dylai'r tir ble mae'r Spar gael ei brynu gan y Cyngor a'i droi'n faes parcio er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio siopau lleol.*

Atodiad D: Sylwadau terfynol

- *Rwy'n gandryll o hyd am yr holl dai a gafodd eu hadeiladu yn Y Rhws – heb feddwl neu ofal am y bobl leol sy'n gorfod byw yma. NID YDYM eisiau rhagor o dai!*
- *Mae'r Rhws yn dioddef o ddiffyg buddsoddi mewn cyfleusterau gyda'r ehangiad o ran y boblogaeth a gyda'r holl dai newydd nid oes unrhyw fuddsoddi mewnol. Nid oes unrhyw gyfleusterau i bobl ifanc ac felly hefyd i'r genhedlaeth hŷn. Mae'n ymddangos bod y cynghorwyr lleol yn anwybyddu poblogaeth Y Rhws, mae angen iddynt ganolbwyntio ar eu hetholwyr ac nid ar weddill Bro Morgannwg. Gadewch i ni gael rhywfaint o fuddsoddi gwerth chweil yn y gymuned.*
- *Mae Parc Ceri Road yn cael ei ddefnyddio llawer gan blant ac oedolion ifanc o bob oedran, yn anffodus mae offer chwarae y parc ar gyfer plant oedran cynysgol a dim byd ar gyfer y rhai sy'n hŷn na 4 oed. Rydym yn haeddu'r un safon ac amrywiaeth o offer chwarae ar gyfer plant o bob oedran, yr un cyfleusterau â'r parciau sydd wedi'u hailwampio yn Y Barri a Phenarth, byddai hefyd o fudd enfawr i boblogaeth oedolion Y Rhws i gael gosod rhywfaint o offer campfa awyr agored a fyddai am ddim i bawb ei ddefnyddio.*

- *Mae ar y pentref angen palmentydd a siopau gwell, mwy o finiau a blodau. Mae popeth yn edrych yn hen ac wedi'i dreulio.*
- *Byddai'n braf gweld mwy o gyfleoedd i'r plant lleol a rhoi rhywle diogel iddynt ddysgu, chwarae a chael hwyl, wrth ddysgu ffyrdd newydd o ymdopi gyda bywyd pob dydd. Mae'r Sgowntiaid yn darparu'r cyfle hwn, maent yn bendant yn haeddu rhywfaint o gyllid.*
- *Mae'n gywilyddus nad yw parc Smeaton Close wedi cael ei grybwyll ar yr arolwg, rwy'n dyfalu, o ystyried y diffyg sylw mae wedi'i dderbyn bod y cyngor wedi anghofio ei fod yn bodoli.*
- *Rwy'n credu y byddai plant lleol yn elwa ar gae 3G ar gyfer pêl-droed a hefyd gosod pyst rygbi*
- *Byddai'n braf cael ystafelloedd newid/cyfleusterau ar gyfer chwaraeon, naill ai ar y Rec neu ar gaeau Celtic Way. Yn ogystal, mae gwir angen cyfleusterau gyda llifoleuadau ar gyfer chwaraeon hefyd, 3g, astroturf? Hyd yn oed cyfleuster chwaraeon concrit gyda goleuadau i'r clybiau ei ddefnyddio.*
- *Caniatáu pysgota ar Drwyn Y Rhws.*
- *Mae angen mwy o fusnesau a llai o dai*
- *Ni fyddwch byth yn plesio pawb.*
- *Rwy'n credu y dylai'r cyngor lleol edrych i mewn i wario arian ar adfer y pysgota yn llynnoedd Y Rhws; gallai hyn fod yn ased gwerthfawr iddynt y maent ar eu colled yn ei gylch ar hyn o bryd*
- *Bu cynlluniau am Sinema yn Y Barri ond nid ydynt eto wedi dwyn ffrwyth, mae'r Barri yn mynd yn fwy ac mae angen mwy o gyfleusterau cymdeithasol ar y Dref a'r cymunedau gwledig.*
- *Rwy'n credu bod yr hyb cymunedol yn syniad da ond rwy'n credu bod angen i'r llyfrgell fod yn rhan fwy ohono. Gallwn i ei weld yn mynd yn set o silffoedd fel arall a byddai hynny'n arwain at ei thranc. Mae eisiau ystyried y cysyniad yn ofalus a buddsoddi llawer ynddo.*
- *Darparu lle chwarae i blant i'r gogledd o'r prif ffordd. Mabwysiadu'r llwybr cerdded anawdurdodedig ar hyd ochr ddeheuol y rheilffordd o'r groesfan wastad i Barc Hamdden Fontygary a dylid hefyd gael ei orchuddio gan darmac er mwyn rhoi mynediad diogel i feiciau a phobl anabl. Byddai hynny hefyd yn llenwi'r "ddolen goll" yn y llwybr arfordirol sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddargyfeirio ar hyd y brif ffordd drwy'r pentref.*
- *Mae'n gas gen i'r awgrym y dylai darparu gwasanaeth llyfrgell yn y pentref gael ei leihau i gornel neuadd gymunedol wedi'i hailwampio!!!! O'r braidd mae digon o le yn yr adeilad presennol ac mae gwneud yr awgrym yn dangos cyn lleied o werth a gwerthfawrogiad sydd gyda chi o'r gwasanaeth a berchir gymaint gan y gymuned gyfan.*
- *Mae angen twtio pentref Y Rhws i gyd – mae golwg blêr arno ger yr holl siopau ac nid yw'n dangos delwedd groesawgar. Mae angen ail-wynebu'r palmentydd a'r darn o ffordd y tu allan i'r ysgol. Byddai rhagor o goed/ cynwysyddion planhigion ble mae'r siopau yn gwella golwg yr ardal.*
- *Cynllun grant cymunedol, canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf a hyb cymunedol fel y gall pobl gwrdd rhywle heblaw am y dafarn*
- *Mae angen i grantiau fod ar gael i'r holl grwpiau, nid un neu ddau yn unig*
- *Mwy o strwythur i'r diwrnod i bensynwyr. Mwy o grwpiau y gallaf fynd iddynt wrth i mi heneiddio. Grwpiau a gynhelir gan y Cyngor megis pilates. Gwasanaethau bysiau/ trafnidiaeth gyhoeddus. Mae plant 8-14 oed yn cael eu hesgeuluso, mae*

angen cyfarpar i blant hŷn. Camerâu i ddatrys problemau o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- *Angen cyfleusterau newydd - rampiau ar gyfer beiciau/ byrddau sglefrio/sgwteri/plant iau/ oedolion ifanc. Pêl droed - cae pob tywydd. Gwelliannau i'r llwybr cerdded i gŵn ar Drwyn y Rhws.*
- *Parc Sblasio*
- *Nid ydych wedi sôn am gyfleusterau anabl. Dylai fod cronfa ganolog fel bod y rhan fwyaf o gyfleusterau cymunedol am ddim, h.y. grwpiau mamau a babanod. Mae'r dref yn cael ei rhedeg gan bobl dros 70 oed felly nid yw'r bobl ifanc yn cael cyfle, dyma'r broblem gyda'r Rhws.*
- *Dywedwyd wrthyf eich bod yn ystyried symud y llyfrgell. Nid wyf yn gwybod a yw hyn yn wir ond rwy'n credu ei fod yn wastraff arian i adeiladu llyfrgell newydd pan fod un yng nghanol y pentref eisoes. Rwy'n gweld bod hwn yn wastraff arian llwyr. Rwy'n gweithio gyda phlant 2-4 oed yng nghylch meithrin Lollipop Lane. Byddwn ni'n dwlu gallu cael rhywfaint o gyllid fel cylch meithrin ar gyfer offer newydd ac adnoddau ar gyfer ein cylch meithrin. Help os gwelwch yn dda!!*